

CGA yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru. Roedd gofyn i weithwyr ieuentid a chymorth ieuentid cymwysedig gofrestru â CGA ers 1 Ebrill 2017.

Dyma'r data cyntaf i'w gyhoeddi gan CGA am ymarferwyr gwaith ieuentid cymwys ac mae'n cwmpasu oedran, rhywedd a chyflogaeth. Byddwn yn adrodd ar nodweddion eraill fel iaith Gymraeg, grŵp ethnig ac anabledd yn y dyfodol, gan fod ein cofrestrion yn poblogi eu cofnodion ar y Gofrestr. Mae'r data a ddangosir o 1 Mawrth 2018.

### Nifer y gweithwyr ieuentid a chymorth ieuentid cymwysedig

Er mwyn cofrestru â CGA, rhaid i weithwyr ieuentid neu gymorth ieuentid weithredu gwasanaethau datblygu ieuentid, bodloni'r gofynion cymhwyster gorfodol a gweithio neu fwriadu gweithio mewn awdurdod lleol neu leoliad gwirfoddol. Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Mae gweithwyr cymorth ieuentid ac ieuentid cofrestredig yn ffurfio 1.3% o ymarferwyr ar Gofrestr Ymarferwyr Addysg CGA.


	Mawrth 2018	
Gweithiwr ieuentid cymwysedig	367	36.7%
Gweithwyr cymorth ieuentid cymwysedig	634	63.3%
Cyfanswm	1,001	100%

### Oedran

Mae proffil oedran ymarferwyr gwaith ieuentid cofrestredig yn iau na hynny ar gyfer holl gofrestreion CGA.

Mae 51.3% o weithwyr ieuentid cofrestredig a 60.9% o weithwyr cymorth ieuentid cofrestredig o dan 40 oed.


	Gweithiwr ieuentid cymwysedig	Gweithiwr cymorth ieuentid cymwysedig	Holl gofrestreion
29 neu'n iau	67	185	15,850
30 i 39	121	201	20,273
40 i 49	103	131	21,671
50 i 59	68	92	17,110
60 neu'n hŷn	8	25	5,377
Cyfanswm	367	634	80,281



## Rhywedd

Mae 66.8% o weithwyr ieuentid cofrestredig a 60.7% o weithwyr cymorth ieuentid cofrestredig yn ferched.

Mae mwy o unigolion cofrestredig mewn gwaith ieuentid o'i gymharu â phroffil cyffredinol y gofrestr.



	Benyw	Gwryw	Cyfanswm
Gweithiwr cymorth ieuentid cymwysedig	245	122	367
Gweithiwr cymorth ieuentid cymwysedig	385	249	634
Holl gofrestreion	63,349	16,932	80,281


## Cyflogaeth

Mae'r mwyafrif (80.7%) o weithwyr ieuentid cymwys a gweithwyr cymorth ieuentid cymwys (77.6%) yn cael eu cyflogi gan awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r rhai a gyflogir yn y categori 'arall' yn cynnwys y rhai a gyflogir mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, ysgolion, a chyflenwi.


	Gweithiwr ieuentid cymwysedig	Gweithiwr cymorth ieuentid cymwysedig
Awdurdod lleol	296	492
Sefydliad gwirfoddol	29	75
Arall	42	67

Gweithwyr ieuentid cymwysedig



■ Awdurdod lleol ■ Sefydliad gwirfoddol ■ Arall

Gweithwyr cymorth ieuentid cymwysedig



■ Awdurdod lleol ■ Sefydliad gwirfoddol ■ Arall

Canran %

### Nodiadau

Daw'r data yn y crynodeb hwn o Gofrestr o Ymarferwyr Addysg CGA.

Cofnodir niferoedd cofrestredig fel rhai gwirioneddol yn hytrach na chyfwerth ag amser llawn ac maent wedi'u seilio ar gategori cofrestru sylfaenol a chyflogaeth.

Nid yw'n ofynnol i weithwyr ieuentid cyflogedig a gweithwyr cymorth ieuentid anghymwys a gweithwyr ieuentid gwirfoddol gofrestru gydag CGA ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y data.

Efallai na fydd canrannau'n gyfanswm o 100 oherwydd talgrynnu.

**Diogelu data** - darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd - ar gael ar [www.cga.cymru](http://www.cga.cymru)

### Cysylltwch â ni

Ymholiadau'r cyfryngau - e-bostiwrch cyfryngau@cga.cymru neu ffoniwch 029 2046 0099

Ymholiadau / adborth eraill - e-bostiwrch ystadegau@cga.cymru neu ffoniwch 029 2046 0099